# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 11

DARPARIAETHAU TERFYNOL

*Dehongli'r Ddeddf*

### 244 Landlord, lletywr a meddiannydd a ganiateir

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion dehongli'r Ddeddf hon.

(2) Y landlord, mewn perthynas â chontract meddiannaeth, yw'r person sydd (neu sy'n honni ei fod) â hawl i roi'r hawl i unigolyn feddiannu'r annedd fel cartref.

(3) Mae person yn byw mewn annedd fel lletywr os yw'r denantiaeth neu'r drwydded y mae'n meddiannu'r annedd oddi tani yn dod o fewn paragraff 6 o Atodlen 2 (llety a rennir â'r landlord).

(4) Ond nid yw person yn byw mewn annedd fel lletywr os rhoddir hysbysiad iddo o dan baragraff 3 o Atodlen 2 bod ei denantiaeth neu drwydded yn gontract meddiannaeth.

(5) Mae person yn feddiannydd a ganiateir mewn annedd sy'n ddarostyngedig i gontract meddiannaeth—

(a) os yw'n byw yn yr annedd fel lletywr neu isddeiliad i ddeiliad y contract, neu

(b) os nad yw'n lletywr nac yn isddeiliad ond bod deiliad y contract yn caniatáu iddo fyw yn yr annedd fel cartref.